



Adroddiad Blynyddol Cydymffurfiaeth yr Iaith Gymraeg 16-17

1. Cyflwyniad

Ar y 25^{ain} Gorffennaf 2016 cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfiaeth dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig ("SLC").

Dywed Safon Rhif 164 yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth:

- “(1) Rhaid i chi gynhyrchu adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd yr ydych chi wedi cydymffurfio â'r safonau gweithredol ble y mae dyletswydd arnoch chi i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.
- (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (ble fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—
- (a) nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwoch yn unol â safon 145);
 - (b) nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi y gwnaethoch chi eu cynnig yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion y gwnaethoch chi eu cadw yn unol â safon 146);
 - (c) os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei gynnig gennych chi yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion y gwnaethoch chi eu cadw yn unol â safon 146);
 - (ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn —
 - (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,
 - (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd, (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn dymunol, neu
 - (iv) nad yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion yr ydych chi wedi'u cadw yn unol â safon 148);
 - (d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
- (3) Rhaid i chi gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ddim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn perthyn iddi.
- (4) Rhaid i chi gyhoeddi'r ffaith eich bod chi wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.
- (5) Rhaid i chi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—
- (a) ar eich gwefan, a
 - (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Mae'r ddogfen hon yn cyfateb i gynhyrchu adroddiad blynyddol cyntaf SLC i sicrhau ein cydymffurfiaeth gyda Safon Rhif 164 ac yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2016/17 (y "BA").

2. Categoriâu Gwybodaeth

2.1 Manylion faint o gyflogeion sydd â sgiliau iaith yn y Gymraeg ar ddiwedd y BA

Dywed Safon Rhif 145 yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth fod yn rhai i'r SLC:

“gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau Gymraeg eich gweithwyr yn unol â safon 123¹), o nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a, ble y mae gennych y wybodaeth honno, rhaid i chi gadw cofnod o lefel sgil y gweithwyr hynny.”

¹ Dywed Safon Rhif 123: “Rhaid ichi asesu sgiliau Gymraeg eich cyflogeion.”

Ar ddiwedd y BA roedd gan SLC 35 o gyflogeion gyda sgiliau iaith yn y Gymraeg.

2.2 Manylion faint o aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg gan SLC yn ystod y BA (ar sail cofnodion y gwnaethoch chi eu cadw yn unol â safon 146²).

Dywed Safon 124 fod yn rhaid i SLC:

“ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o’r fath yn Saesneg — (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â’r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.”

Yn y BA, ni wnaeth SLC ddarparu unrhyw gyrsiau hyfforddiant i aelodau staff yn y Gymraeg oherwydd diffyg galw.

2.3 Manylion y ganran o gyfanswm y staff a fynychodd fersiwn iaith Gymraeg o un rhyw gyrsiau a gynigodd SLC yn ystod y BA (ar sail cofnodion y gwnaethoch chi eu cadw yn unol â safon 146³).

Ddim yn berthnasol oherwydd absenoldeb unrhyw gyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb a ddarparwyd gan SLC yn y Gymraeg yn ystod y BA. Fodd bynnag, er na ddarparwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb, fe wnaeth SLC gynnig, ac mae’n parhau i gynnig, 5 e-fodiwl Cymraeg i gyflogeion trwy’r Learning Academy:

- **Pa mor dda yw eich Cymraeg?:** hunanasesiad y byddwn yn gofyn i’n cydweithwyr yn Llandudno gyflawni, yn rhan o’n cefnogaeth i’r Cynllun iaith Gymraeg;
- **Talk Now! Welsh:** lefel dechreuwr ar gyfer dysgu’r Gymraeg. Mae’n rhyngweithiol gyda gemau, cwisiau ac asesiadau ac mae’n cynnwys amrywiaeth eang o eirfa;
- **Talk More Welsh:** i ddechreuwr a sgwrs ar gyfer y rhai sydd eisiau dysgu’r Gymraeg. Mae’n rhyngweithiol gyda gemau, cwisiau ac asesiadau ac mae’n cynnwys amrywiaeth eang o eirfa;
- **Talk the Talk Welsh:** i lefel ganolradd a sgwrs ar gyfer y rhai sydd eisiau dysgu’r Gymraeg. Mae’n rhyngweithiol gyda gemau, cwisiau ac asesiadau ac mae’n cynnwys amrywiaeth eang o eirfa; a
- **Talk Business Welsh:** i lefel ganolradd a sgwrs ar gyfer y rhai sydd eisiau dysgu’r Gymraeg ac yn cynnwys sgiliau yn y gwaith. Mae’n rhyngweithiol gyda gemau, cwisiau ac asesiadau ac mae’n cynnwys amrywiaeth eang o eirfa.

2.4 Manylion parthed y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd gan SLC yn ystod y BA a gategoreiddiwyd fel swyddi sy’n gofyn —

- (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,**
- (ii) sgiliau iaith Gymraeg angen eu dysgu ar ôl penodi i’r swydd,**
- (iii) sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol, neu**
- (iv) nad yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion yr ydych chi wedi’u cadw yn unol â safon 148⁴);**

² Dywed Safon Rhif 146: “Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 124), a (b) os ddarparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 124, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o’r cwrs.”

³ Uchod 2.

⁴ Dywed Safon Rhif 148: “Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 132) fel swyddi sy’n gofyn — (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i’r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.”

Dywed Safon Rhif 132: “Pan fyddwch yn asesu’r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu’r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a’i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o’r canlynol yn gymwys — (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i’r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.”

Rhwng y cyfnod 4^{ydd} Gorffennaf 2016 tan 31^{ain} Mawrth 2017, hysbysebodd yr SLC y swyddi gwag canlynol a gafodd eu categoraiddio fel swyddi ble:

- (i) sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol- **12**
- (ii) sgiliau iaith Gymraeg angen eu dysgu ar ôl penodi i'r swydd- **0**
- (iii) sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol- **0**
- (iv) sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol - **46**

2.5 Manylion y nifer o gwynion a dderbyniodd SLC yn ystod y BA parthed cydymffurfiad SLC gyda'r safonau gweithredol a fanylir yn Hysbysiad Cydymffurfiad SLC.

Ni dderbyniodd SLC unrhyw gwynion yn ystod y BA parthed cydymffurfiad SLC gyda'r safonau gweithredol a fanylir yn Hysbysiad Cydymffurfiad SLC.